# Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 16-09)

**Dyddiad: Dydd Iau, 2 Gorffennaf 2009**
**Amser: 13:00 - 15:15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Jeff Cuthbert, Caerffili
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canol a Gorllewin Cymru
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Siân Phipps, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr y Pwyllgorau

Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill y Bresennol

Greg Walker, Cyfarwyddwr Dros Dro, Addysg Uwch Cymru
Yr Athro Merfyn Jones, Is Ganghellor, Prifysgol Bangor

Yr Athro Phil Gummett, Prif Weithredwr, CCAUC
Roger Thomas, Cadeirydd, CCAUC
Jane Hutt, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Mike Hopkins, Pennaeth yr Adran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr
Peter McAllister, Pennaeth y Gangen Dysgu Gydol Oes
Jim Cowan, Pennaeth y tîm Adolygu Addysg Uwch (Cam 2)

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Yr oedd ymddiheuriadau wedi cyrraedd oddi wrth Christine Chapman.

### 2: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Ymchwilio i gyfraniad economaidd addysg uwch
### Papurau: EL(3) 16-09 - Papur 1, EL(3) 16-09 - Papur 2, Atodiad 1

**Addysg Uwch Cymru** 2.1 Croesawodd y Pwyllgor Greg Walker, Cyfarwyddwr Dros Dro, Addysg Uwch Cymru; a'r Athro Merfyn Jones, Is Ganghellor Prifysgol Bangor. 2.2 Archwiliodd y Pwyllgor y dystiolaeth.

**Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**

2.3 Croesawodd y Pwyllgor yr Athro Phil Gummett, Prif Weithredwr CCAUC; a Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC.

2.4 Archwiliodd y Pwyllgor y dystiolaeth.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

2.5 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt, y Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Mike Hopkins, Pennaeth yr Adran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr; Peter McAllister, Pennaeth y Gangen Dysgu Gydol Oes; a Jim Cowan, Pennaeth y tîm Adolygu Addysg Uwch (Cam 2). 2.6 Holwyd y Gweinidog gan y Pwyllgor.

**Cam gweithredu:**

Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu:

Eglurhad o'r disgwyliadau statudol ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn y Mesur Tlodi Plant a deddfwriaeth arall.

**Papur i'w nodi:**

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol
### Papur: EL(3) 15-09 - Cofnodion

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 18 Mehefin.

**Sesiwn breifat**

Penderfynodd y Pwyllgor atal y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Gorchymyn Sefydlog 10.37(vi).

### 3:Adroddiad drafft y Pwyllgor ar swyddogaeth llywodraethwyr ysgol yng Nghymru

3.1 Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau am ei adroddiad drafft ar swyddogaeth llywodraethwyr ysgol yng Nghymru a'i gytuno, a gofynnodd am i'r adroddiad gael ei drafod mewn Cyfarfod Llawn.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2009**